

LLINELL AMSER CELTIAID Y CYFANDIR

LLINELL AMSER ARCHEOLEGOL

- 700–450CC. Diwylliant Hallstatt (wedi'i enwi ar ôl Hallstatt ger Salzburg, Awstria) i'r gogledd o fynyddoedd yr Alpau rhwng dwyrain Ffrainc a gorllewin Hwngari.
- 450–50CC. Diwylliant La Tène (wedi'i enwi ar ôl La Tène ger Neuchâtel, y Swistir).

* * * * *

LLINELL AMSER HANESYDDOL

- c.525CC. Sefydlu Massalia (Marseille) ar arfordir Môr y Canoldir yn Ffrainc yn ganolfan fasnachu Groegaidd ar gyffiniau tiriogaeth y Celtiaid.
- c.450CC. Yr hanesydd Groegaidd Herodotus yn dweud bod y Celtiaid i'w canfod yn nharddle'r Danube (h.y. de'r Almaen a Ffrainc modern Gâl oedd yr enw ar y tiroedd hyn yn y cyfnodau Clasurol). Lleolodd Herodotus y Celtiaid hefyd y tu hwnt i 'Golofnau Ercwlff' (*Hercules*) (sef Gibraltar heddiw) h.y. yn rhanbarth yr Atlantig
- c.390CC. Goresgyniad mawr y Celtiaid ar yr Eidal, anrheithio Rhufain gan Brennos arweinydd Gâl.
- c.325CC. Llongwr o Groeg, Pytheas o Massalia yn ymweld ag ynysoedd Atlantig o'r enw *Pretaniké* (Prydain).
- 280–76CC. Goresgyniad mawr y Celtiaid ar y Balcanau, anrheithio Delfi (Groeg), sefydlu'r Galatiaid yn Anatolia (Twrci heddiw).
- 225–191CC. Y Rhufeiniaid yn gorchfygu Galiad Is yr Alpau (Cisalpine) yr Eidal.
- 154–32CC. Y Rhufeiniaid yn gorchfygu'r Celtiberiaid yng nghanolbarth Sbaen.
- 125–23CC. Y Rhufeiniaid yn gorchfygu ymylon Ffrainc ar Fôr y Canoldir.
- 58–54CC. Y Rhufeiniaid yn gorchfygu Gâl (Ffrainc heddiw).
- 19CC. Y Rhufeiniaid yn gorchfygu Asturias yng ngogledd-orllewin Sbaen.
- 9CC. Y Rhufeiniaid yn gorchfygu Pannonia (gorllewin Hwngari) a'r Marcoi Germanaidd yn cymryd lle'r Boii Celtaidd ym Mohemia (Gweriniaeth Tsiec).
- 43–51OC. Claudius yn trechu iseldir de Prydain.

**(ymlaen i LINELL AMSER GÂL RUFEGINIG
a LLINELL AMSER PRYDAIN RUFEGINIG)**

LLINELL AMSER GÂL RUFEGINIG

- 58–54CC. Y Rhufeiniaid yn gorchfygu Gâl (Ffrainc heddiw).
- 12CC. Adrefnu gweinyddiaeth Gâl a sefydlu templ ymerodrol yn Lyon, prifddinas Gâl Rufeinig.
21. Pendefigion Gâl yn gwrthryfela.
- 41–54. Pendefigion Gâl yn cael eu rhyddfrefinio yn ddinasyddion Rhufain gan Claudius, daw Lyon yn brifddinas Gâl Rufeinig.
212. Gorchymyn Caracalla yn rhyddfrefinio holl breswylwyr Gâl yn ddinasyddion Rhufain.
- 259–73. Ymerodraeth Gyntaf Gâl (gan gynnwys Prydain a Sbaen) yn ymwahanu o'r Ymerodraeth Rufeinig.
- 280au. Taeogion Bagaudae yn codi mewn gwrthryfel yng Ngâl.
- 286–96. Ail Ymerodraeth Gâl (o dan Carausius ac yna Allectus).
358. Ffrancod Germanaidd yn cael eu cydnabod yn rheolwyr Gwlad Belg.
406. Yr Alamanni Germanaidd yn concro Alsace yn nwyrain Gâl a'r Swistir.
410. Y Fisigothiaid Germanaidd yn anrheithio Rhufain.
- 425–54. Aetius, rheolwr Rhufeinig Gâl, yn rym mawr yn y tiroedd sy'n weddill yng ngorllewin yr Ymerodraeth Rufeinig.
- 430au. Taeogion Bagaudae yn codi mewn gwrthryfel dro ar ôl tro.
418. Cydnabod y Fisigothiaid yn rheolwyr Aquitaine (de-orllewin Ffrainc) ac o'r fan honno byddai brenhiniaeth y Fisigothiaid yn ehangu maes o law i gynnwys y rhan fwyaf o benrhyn Iberia.
443. Y Bwrgwyniaid Germanaidd yn cael eu cydnabod yn rheolwyr Lyon a basn uchaf y Rhôn (dwyrain canolbarth Ffrainc).
451. Yr Hyniaid o dan Attila yn cael eu gorchfygu ym mrwydr Châlons yn Ffrainc.
461. Aegidius, un o gadfridogion Aetius, yn rheoli Gâl. Torri cyswllt ag Ymerodraeth Rufeinig sy'n edwino.
- Canol 5G. Tystiolaethau olaf o'r Oedeleg fel iaith fyw, daeth Lladin lafar yn ei lle.
476. Yr Ymerodraeth Rufeinig o'r diwedd yn dod i ben.
486. Brenin y Ffrancod, Clovis, yn meddiannu gogledd Gâl gan orchfygu Syagrius, yr arweinydd Rhufeinig olaf. Trodd i Gristnogaeth yn 496 gan felly ddiogelu ei eiddo Galaidd a gwneud Paris yn brifddinas iddo. Meddiannodd frenhiniaeth y Fisigothiaid (gogledd y Pyreneau) yn 507. Dyma darddiad Ffrainc Fodern.

(ymlaen i LINELL AMSER LLYDAW GYNNAR)

LLINELL AMSER PRYDAIN RUFEGINIG

- 55–54CC. Cyrchoedd Cesar ym Mhrydain.
- 43–51. Claudius yn gorchfygu iseldir de Prydain.
- 69–78. Ymgyrchoedd yng ngogledd 'Lloegr' a gorchfygu 'Cymru'.
- 79–84. Gorchfygu gogledd 'Lloegr'. Ymgyrchoedd yng ngogledd Prydain yn cyrraedd mor bell ag Inverness ac yn concro de'r Alban. Cyfres o gilio'n ôl yn digwydd yn y genhedlaeth wedyn.
- 122–36. Y Rhufeiniaid yn tynnu'n ôl at Fur Hadrian sy'n dod yn ffin ogleddol Prydain Rufeinig.
- 139-63. Ymgyrchoedd yng ngogledd Prydain. Am genhedlaeth yn unig, Mur Antonine, i'r gogledd o fur Hadrian yw ffin ogleddol Prydain Rufeinig.
- 220au. Codi'r caerau cyntaf y Glannau Sacsonaidd yn erbyn môr-ladron Almaenaidd.
- 259–73. Ymerodraeth gyntaf Gâl (sy'n cynnwys Prydain) yn torri cyswllt â'r Ymerodraeth Rufeinig.
- 286–96. Ail Ymerodraeth Gâl (o dan Carausius ac yna Allectus).
297. Y sôn cyntaf am y Pictiaid (enw newydd am Frythoniaid yr Alban nas concrwyd).
- 383–88. Gwrthryfel Magnus Maximus.
408. Ar ôl i'r milwyr dynnu'n ôl, Prydain Rufeinig yn ymneilltuo oddi wrth yr Ymerodraeth Rufeinig.

(ymlaen i LINELL AMSER PRYDAIN I LOEGR)

LLINELL AMSER PRYDAIN I LOEGR

- ?5G cynnar. Trefedigaethau Gwyddelig yng Nghymru, Ynys Manaw a de-orllewin yr Alban.
- 440au. Ymosodwyr Germanaidd (y Sacsoniaid) yn sefydlu rheolaeth dros rannau dwyreiniol iseldir Prydain. Dyma'r Saeson cyntaf a dechreuadau Lloegr.
- 490au. Ymlediad y Saeson wedi'i ffrwyno gan arweinwyr y Brythoniaid Ambrosius Aurelianus ac Arthur.
549. Pla Iwstinian (pandemig) yn distrywio gorllewin Prydain.
- 550au. Sefydlu trefedigaeth Seisnig yn Bernicia yn Northumberland o dan Ida.
577. Brwydr Dyrham (ger Bath) yn rhannu Brythoniaid y canolbarth a Brythoniaid y de-orllewin.
610. Brwydr Caer yn dechrau'r rhaniad rhwng Brythoniaid y canolbarth a Brythoniaid y gogledd.
634. Marwolaeth Cadwallon o Wynedd, sef y gwir ymgeisydd olaf am arweinyddiaeth Prydain.
638. Saeson Brynaich (Bernicia) yn gorchfygu Caeredin.
664. Marwolaeth Cadwaladr o Wynedd, mab Cadwallon, a gofir yn y traddodiad Cymraeg i fod y Cymro olaf i arwain Prydain.

**(ymlaen i LINELL AMSER CYMRU GYNNAR,
LLINELL AMSER CERNYW GYNNAR A
LLINELL AMSER YNYS MANAW GYNNAR)**

LLINELL AMSER CYMRU GYNNAR

790au.	Clawdd Offa yn nodi terfyn ffin Cymru â Lloegr.
844–78.	Rhodri Mawr o Wynedd yn uno'r rhan fwyaf o Gymru.
900–50.	Hywel Dda o'r Deheubarth yn uno'r rhan fwyaf o Gymru.
1039–63.	Gruffudd ab Llywelyn o Wynedd yn uno'r rhan fwyaf o Gymru.
1069–71.	Sefydlu ieirll y Normaniaid-Ffrangeg yn Henffordd, Amwythig a Chaer i warchod y Gororau. Rhannau bychain o'r gororau yn cael eu concro wedi hynny.
1081.	Taith Gwilym Goncwerwr i Dŷ Ddewi i godi ofn ar y Cymry annibynnol ac ar ei farwniaid ei hun sydd wedi ennill tiroedd yng Nghymru.
1093.	Rhys ab Tewdwr, brenin y Deheubarth, yn cael ei ladd gan y Normaniaid-Ffrangeg ger Aberhonddu. Y Normaniaid-Ffrangeg yn gorchfygu Cymru gyfan bron â bod.
1099–1102.	Y Normaniaid-Ffrangeg yn cael eu gwthio'n ôl yng ngogledd a chanolbarth Cymru.
1107–10.	Y Fflandryswyr a'r Saeson yn sefydlu 'Lloegr Fach' yn Sir Benfro.
1135.	Y gwrthryfel yn gyrru'r Normaniaid-Ffrangeg o ran helaeth o dde-orllewin Cymru, ac wedi hynny arhosodd y ffin rhwng y Gororau a'r Gymru Gymraeg (<i>Pura Wallia</i>) yn gymharol ddigyfnawid tan goncwest terfynol 1282.
1157–65.	Harri II yn arwain pedair taith filwrol i godi ofn ar y Cymry annibynnol.
1165–97.	Rhys ab Gruffudd o'r Deheubarth yn rheoli'r rhan fwyaf o dde Cymru.
1167.	Arglwyddi'r Gororau yn y de-orllewin yn cael eu cadw'n brysur yn gorchfygu Iwerddon.
1216.	Rhannu'r Deheubarth yn Aberdyfi.
1197-1240.	Llywelyn ab Iorwerth o Wynedd yn rheoli'r rhan fwyaf o'r Gymru Gymraeg.
1246-82.	Llywelyn ab Gruffudd o Wynedd yn rheoli'r rhan fwyaf o'r Gymru Gymraeg.
1276–77.	Rhyfel cyntaf annibyniaeth Cymru.
1282–83.	Ail ryfel annibyniaeth Cymru. Y Gymru Gymraeg yn cael ei choncro gan Edward I.
1294.	Gwrthryfel Madog ab Llywelyn.
1400–12.	Gwrthryfel mawr Owain Glyndŵr. Deddfau cosbi yn cael eu rhoi ar y Cymry.
1471.	Sefydlu Cyngor y Gororau yn Llwydlo.
1485.	Yn sgil Brwydr Bosworth daeth y Cymro Seisnig Harri Tudur yn Harri VII. Ymlacio'r deddfau cosbi yn erbyn y Cymry.
1536–43.	Y Deddfau Uno.
1563.	Mesur i awdurdodi cyhoeddi Beibl Cymraeg (cwblhawyd yn 1588).
1571.	Coleg Iesu, Rhydychen, yn dod yn goleg dewisol i ysgolheigion o Gymru.
1689.	Cyngor Cymru a'r Gororau, Llwydlo, yn cael ei ddiddymu.

(ymlaen i LINELL AMSER CYMRU FODERN)

LLINELL AMSER IWERDDON GYNNAR

?5G cynnar.	Trefedigaethau Gwyddelig yng Nghymru a'r Alban.
430au.	Tystiolaeth o Gristnogaeth yn Iwerddon (Palladius a Padrig).
590au.	Columbanus yn sefydlu mynachlogydd Gwyddelig yn nwyrain Ffrainc.
664.	Synod Whitby (Swydd Efrog) yn golygu diwedd ar ddylanwad Gwyddelig yng ngogledd Lloegr.
795.	Ymosodiadau cyntaf y Llychlynwyr ar Iwerddon.
837–42.	Llyngesau mawr y Llychlynwyr yn gaeafu yn Iwerddon.
910au.	Sefydlu trefi Llychlynnaidd yn Waterford, Dulyn, Limerick.
999.	Brian Boru, brenin Munster, yn gorchfygu Sitric Silkenbeard, brenin Dulyn.
1002–14.	Brian Boru yn uwch-frenin Iwerddon.
1152.	Synod Kells-Mellifont yn ailffurfio Eglwys Wyddelig o dan archesgobaeth Armagh, gan roi diwedd ar honiadau Caergaint o awdurdod dros rai esgobaethau yn Iwerddon.
1167–69.	Yr Eingl-Ffrancwyr (Normaniaid) yn ymyrryd gyntaf yng ngwleidyddiaeth Iwerddon.
1170-71.	Richard de Clare ('Strongbow') yn dod yn frenin Leinster.
1171-72.	Taith Harri II i Iwerddon i godi ofn ar farwniaid annibynnol Iwerddon a'i farwniaid barus ef.
1240au.	Llawer o arglwyddiaethau Seisnig yn cael eu rhannu ac felly'n gwanychu'r drefedigaeth.
1258–60.	Y Gwyddelod yn ymuno ac yn cydnabod Brian Ó Néill yn uwch-frenin Iwerddon (yr olaf). Aed Ó Conchobhair o Connacht yn dod â'r <i>gallowglasses</i> cyntaf (sef milwyr tâl arswydus) draw o'r Alban.
1261.	Brwydr Callan, dechrau ymgiliad y Saeson o flaen y Gwyddelod.
1270au.	Ymosodiadau'r Mac Murchadas o Fynyddoedd Wicklow ar Ddulyn yn dod yn gyffredin.
1315–18.	Edward Bruce, brawd brenin yr Alban, Robert Bruce, yn goresgyn Iwerddon.
1333.	Yn dilyn marwolaeth William de Burgh, Iarll Ulster, Gwyddelod Ulster yn ailgodi.
1348–50.	Y Pla Du yn gwanhau'r drefedigaeth.
1366.	Statudau Kilkenny yn gorchymyn yn erbyn ymsefydlwyr Saesneg yn dod yn Wyddelod.
15G.	Llywodraethu uniongyrchol o Loegr wedi'i gyfyngu i un ardal yng nghyffiniau Dulyn o'r enw Pale ac i rai trefi megis Wexford, Waterford a Cork. Câl ardaloedd cefn-gwlad eraill eu rheoli gan arglwyddi lled-annibynnol o dras Gwyddelig neu Seisnig.

(ymlaen i LINELL AMSER IWERDDON DDIWEDDARACH)

LLINELL AMSER IWERDDON DDIWEDDARACH

1534. Fforffedu Iarll Kildare yn arwydd o ddiddordeb o'r newydd gan Harri VIII i lywodraethu'n uniongyrchol.
1534. Harri VIII yn torri awdurdod y Pab dros yr Eglwys.
1541. Harri VIII yn newid ei deitl o 'Arglwydd Iwerddon' i 'Frenin Iwerddon'.
1543. Polisi 'Surrender and regrant' sydd â'r nod o ddarostwng y rheolwyr Gwyddelig lled-annibynnol.
- 1543–1606. Creu rhwydwaith o siroedd newydd ledled Iwerddon.
1556. Gwladychu (neu drefedigaethu) Offaly a Laois.
- 1568–73. Gwrthryfel Desmond Cyntaf (FitzMaurice). Crefydd yn dod yn wleidyddol.
1570. Y Pab Pius V yn esgymuno Elisabeth I, Brenhines Lloegr.
- 1579–83. Ail Wrthryfel Desmond (FitzGerald).
1585. Cyfansoddiad Connacht (*Composition of Connacht*) yn darostwng rheolwyr gorllewin Iwerddon.
1588. Armada Sbaen.
- 1594–1603. Y Rhyfel Naw Mlynedd (Aodh Ó Néill).
1601. Brwydr Kinsale.
1603. Cytundeb Mellifont.
1607. Yr ieirll yn ffoi (*the Flight of the Earls*).
- 1608–30. Gwladychu Ulster.
- 1641–42. Gwrthryfel Ulster.
- 1642–49. Cydffederasiwn (Catholig) Kilkenny yn rheoli llawer o Iwerddon.
- 1649–50. Cromwell yn gwahardd annibyniaeth Iwerddon.
- 1649–60. Y Rhyngdeyrnasiad (*Interregnum*) yn sgil dienyddio Brenin Siarl I.
- 1650au. Atafaelu tir Cromwelaidd.
1660. Adalw'r Brenin Siarl II.
1685. Brenin Iago II, Pabydd. Catholigion wedi hynny yn cymryd lle swyddogion Protestannaidd.
1688. Ar ôl y 'Chwyldro Gogoneddus' daeth William o Orange, Protestant o'r Iseldiroedd yn frenin Lloegr yn lle Iago II, yr olaf o'r Stiwartiaid.
- 1690–91. 'Rhyfel y Ddau Frenin' rhwng Iago II a William II.
1691. Iago II yn cael ei orchfygu ym Mrwydr y Boyne. Câl ei ymlynwyr eu galw yn Jacobiaid ac roeddynt yn weithgar am genhedlaeth neu ddwy wedyn.
1691. Cytundeb Limerick yn cadarnhau gorchfygu Jacobiaid Iwerddon a'r 'Oruchafiaeth Brotestannaidd'.

(ymlaen i LINELL AMSER IWERDDON FODERN)

LLINELL AMSER ALBAN GYNNAR

- 75G. Trefedigaethau Gwyddelig yn ne-orllewin yr Alban.
563. Sefydlu mynachlog Iona gan Colum Cille (Columba) o Iwerddon.
603. Aethelfrith o Frynaich (Bernicia) yn gorchfygu Aedán mac Gabráin yn 'Degsastan'.
638. Saeson o Northymbria yn concro Caeredin.
- 630au. Y Saeson yn dominyddu de Prydyn (Pictland).
- 660au. Y Saeson yn dechrau concro Cumberland. Strathclyde yw'r unig frenhiniaeth Frythonig annibynnol sydd ar ôl.
664. Synod Whitby (Swydd Efrog) yn golygu diwedd ar ddylanwad Gwyddelig yng ngogledd Lloegr.
685. Brwydr Dunnichen lle mae'r Pictiaid yn gorchfygu Saeson Northymbria. Forth yw'r terfyn rhwng tiroedd y Saeson a'r Pictiaid.
716. Iona yn derbyn y Pasg Rhufeinig.
- 720au. Mynaich Gwyddelig yn ymweld â Faroes, yn ddiweddarach maent yn cyrraedd Gwlad yr Iâ.
- 750–52. Kyle wedi'i gorchfygu am gyfnod gan bobl Northymbria.
- 790au. Ymosodiadau cyntaf y Llychlynwyr ar ynysoedd yr Alban.
807. Cymuned Iona yn symud i Kells, Iwerddon, i osgoi cyrchoedd y Llychlynwyr.
- 9G cynnar. Anheddiad y Llychlynwyr yn Ynysoedd Erch (Orkney), gogledd yr Alban ac Ynysoedd y Gorllewin.
- 810au. Brenin y Pictiaid, Constantine mac Fergus, yn rheoli'r Pictiaid a'r Albanwyr.
- c.847. Brenin yr Alban, Kenneth mac Alpin, yn rheoli'r Pictiaid a'r Albanwyr.
- 858–62. Domnall I yn sefydlu'r Alban yn frenhiniaeth (i'r gogledd o'r Forth).
- 870au. Ymosodiadau'r Llychlynwyr ar Strathclyde yn gwanychu'r Brythoniaid.
- 9G diweddar. Anheddiad Gwyddelod-Llychlynwyr yn Galloway.
890. Strathclyde wedi'i hatodi i'r Alban fel brenhiniaeth ddibynnol.
934. Athelstan o Loegr yn goresgyn yr Alban.
954. Stainmore. Ar ôl marwolaeth Eirík Bloodaxe, brenin Llychlynnaidd Efrog, y frenhiniaeth Seisnig yn cyffinio â'r frenhiniaeth Albanaidd.
1018. Brwydr Carham, Caeredin a Lleuddiniawn (Lothian) wedi'u concro'n am byth gan yr Albanwyr.

(ymlaen i LINELL AMSER ALBAN DDIWEDDARACH)

LLINELL AMSER ALBAN DDIWEDDARACH

1070. Mael Coluim III, brenin yr Alban, yn priodi Margaret, tywysoges o Loegr.
- 1097-1153. Pob un yn ei dro, daw meibion Margaret - Edgar, Alexander I, David I - â dylanwadau Ffrengig a Seisnig i'r Alban, proses sy'n golygu Seisnigo llawer ar yr iseldiroedd yn y canrifoedd canlynol.
- 1130–1230au. Ardal Moray a Ross wedi'i choncro gan Goron yr Alban.
1156. Somerled wedi sefydlu brenhiniaeth ar wahân i'r Ynysoedd, wedi'i lleoli ar Islay, oedd yn cynnwys Ynysoedd Heledd ond nid Ynys Manaw.
1234. Arglwyddiaeth Galloway wedi'i choncro gan Goron yr Alban.
- 1235–39. Sutherland wedi'i drechu gan Goron yr Alban, dim ond Caithness wedi'i chadw gan Iarll Ynysoedd Erch (Orkney).
1266. Y Norwyaid yn ildio Ynysoedd y Gorllewin ac Ynys Manaw i Goron yr Alban.
- 1295–1328. Rhyfeloedd Annibyniaeth yr Alban yn erbyn Edward I (Brwydr Pont Stirling 1297, Brwydr Bannockburn 1314).
1329. Brenhiniaeth yr Ynysoedd yn dod yn Arglwyddiaeth yr Ynysoedd.
1472. Ynysoedd Erch a Shetland yn dod yn rhan o'r Alban.
1493. Fforffedu Arglwyddiaeth yr Ynysoedd, ei rhannu yn arglwyddiaethau llai.
- 1544–51. Y rhyfel olaf rhwng Lloegr a'r Alban. 'Rough wooing' Harri'r VIII.
1560. Llywodraeth yr Alban yn mabwysiadu Calfiniaeth (Presbyteriaeth).
- 1596–1625. Ymgyrchoedd dofi achlysurol ar yr Ucheldiroedd.
1603. Iago VI yn dod yn Iago I o Loegr. Alban wedi'u huno â Lloegr (ac Iwerddon)
- 1610au. Cydgynulliad blynyddol penaethiaid yr Ucheldir i Gaeredin. (Statudau Iona 1609; gorchmynion y Cyfrin Gyngor 1616, 1633).
- 1639–52. Y Cyfamodwyr (Albanwyr yr iseldir) yn codi yn erbyn Siarl I.
- 1644–47. Gwrthryfel Brenhinwyr Montrose.
- 1652–60. Cromwell yn concro'r Alban ac yn sefydlu Gwerinlywodraeth Lloegr.
- 1653–54. Gwrthryfel y Brenhinwyr yn yr Ucheldiroedd.
- 1689–92. Gwrthryfel 1af y Jacobiaid. (Brwydr Killiecrankie 1689; cyflafan Glencoe 1692)
1707. Uno'r Alban â Lloegr.
- 1715–16. 2il Wrthryfel y Jacobiaid.
1719. 3ydd gwrthryfel y Jacobiaid.
- 1745–46. 4ydd gwrthryfel y Jacobiaid. Gorchfygu terfynol ar lwythi'r Ucheldir.

(ymlaen i LINELL AMSER ALBAN FODERN)

LLINELL AMSER LLYDAW GYNNAR

460au	Tystiolaeth o Frythoniaid yng ngogledd Gâl fel clerigwyr ac arweinwyr rhyfel.
c.500.	Sefydlu teyrnasiad Brythonig yng ngorllewin Armorica, ac fe'i cydnabyddir gan y Ffrancod Germanaidd sydd newydd orchfygu Gâl Rufeinig. Llydaw wedi'i sefydlu, megis hefyd y Llydawyr.
570au.	Llydawyr yn concro ardal Vannes yr holl ffordd hyd at aber y Loire. Mae'r Llydaw wreiddiol wedi'i ffurfio rhwng y Mont-Saint-Michel a cheg y Loire.
8G.	Brenin Ffrancaidd yn ailgipio sir Vannes.
799.	Charlemagne yn darostwng Llydaw gyfan.
841–53.	Nominoe, gweinyddwr Llydewig i'r brenin Ffrancaidd, yn gwrthryfela ac yn rhyddhau Llydaw. (Brwydr Ballon 845). Mae ei olynwyr yn sefydlu brenhiniaeth annibynnol sy'n gweinyddu eangderau mawr yn ardaloedd cyfagos Ffrainc.
913-36.	Cyrchoedd y Llychlynwyr yn gyrru arweinwyr y Llydawyr i alltudiaeth am genhedlaeth i Loegr a Ffrainc.
10G-11G.	Gan nad yw'n gallu uno, Llydaw wedi'i chwtogi yn bennaf i'w ffiniau presennol, wrth i siroedd Rennes a Nantes ddod yn rhai Ffrangeg eu hiaith.
1066.	Rhannau o ogledd-ddwyrain Llydaw, dan reolaeth Dugiaeth gyfagos Normandi, yn cymryd rhan yng ngoresgyniad Lloegr.
1166.	Harri II o Loegr yn concro Llydaw. Diwedd ar lywodraethu brodorol.
1213.	Y brenin Ffrainc sy'n llywodraethu yn gosod llinach o ddugiaid Ffrengig ar Lydaw.
1341–64.	Rhyfel olyniaeth chwerw rhwng y carfanau Blois a Monfort (yr ail yn ennill).
1488.	Byddin Ffrengig yn gorchfygu byddin Lydewig. Llydaw yn dod yn ddiffynwriaeth (<i>protectorate</i>).
1491.	Anne, aeres y Ddugiaeth, yn cael ei gorfodi i briodi Brenin Lloegr. (Yn 1499 mae'n gorfod priodi brenin nesaf Lloegr).
1532.	Uno Llydaw â Brenhiniaeth Ffrainc, ac ystadau Llydewig yn cytuno i hynny, gan gadw peth ymreolaeth.
1554.	Sefydlu <i>Parlement</i> Llydaw (uchel lys) Rennes.
1675.	Gwrthryfel y werin, y Boneti Coch, yn Cornouaille, yn cael ei ddarostwng yn greulon.
1718.	Plot y boneddigion dan Pontcallec i adfer ymreolaeth Llydaw.
1764–74.	<i>Parlement</i> Llydaw yn herio'r pŵer brenhinol.
1789.	Diddymu Parlement de Bretagne yn sgil y Chwyldro Ffrengig.
1804.	Plot y boneddigion dan Cadoudal.

(ymlaen i LINELL AMSER LLYDAW FODERN)

LLINELL AMSER CERNYW GYNNAR

682. Y Brythoniaid 'wedi'u gyrru i'r môr' gan Centwine (? Y Saeson yn cyrraedd Môr Hafren gan wahanu Brythoniaid Cernyw ymhellach oddi wrth Frythoniaid Cymru).
710. Caerwysg wedi'i gymryd gan y Saeson o dan frenin Ine.
- 807–38. Y Cernywiaid, mewn cynghrair â'r Llychlynwyr, o'r diwedd yn gorchfygu'r Saeson yn Hingston Down, ger Callington, Cernyw.
878. Marwolaeth Doniarth. Dyma frenin olaf Cernyw y gwyddys amdano.
- 931–1042. Esgobaeth Cernyw yn Saint Germans. Wedi'i sefydlu o dan Athelstan. Ei chynnwys yn esgobaeth Caerwysg.
944. Tamar wedi'i osod yn ffin rhwng y Cernywiaid a'r Saeson.
- 1068–75. Gwilym Goncwerwr ar y dechrau yn rhoi Cernyw i'r Llydawr Briant.
- 1135–41. Stephen yn rhoi Cernyw i Alan, iarll Llydaw.
1141. Sefydlu iarllaeth Cernyw.
1201. Gwahanu stanariau Cernyw oddi wrth rai Dyfnaint.
1264. Sefydlu Glasney gan Esgob Caerwysg.
1337. Sefydlu Dugiaeth Cernyw.
1497. Gwrthryfel An Gof.
1549. Gwrthryfel y Llyfr Gweddi.
- 1642-46. Y Cernywiaid yn frenhinwyr pybyr yn ystod Rhyfeloedd Cartref Lloegr (cadarnle olaf y brenhinwyr yn ynysoedd Sili/*Scilly* yn parhau tan 1651).
1688. Esgob Trelawny wedi'i garcharu gan Iago II am amau adsefydlu Catholigion.
- 1710au. Magu'r genhedlaeth olaf o siaradwyr Cernyweg.
1743. Y cyntaf o ddeugain ymweliad John Wesley â Chernyw (yr olaf yn 1798).
1752. Atal Senedd Stanari.
- 1790au. Yr olaf o'r siaradwyr Cernyweg rhugl (dywedir mai'r siaradwr olaf i oroesi oedd Dolly Pentreath a fu farw yn 1777).

(ymlaen i LINELL AMSER CERNYW FODERN)

LLINELL AMSER YNYS MANAW CYNNAR

- 5G-9G. Ynys Manaw wedi'i rheoli gan linach Frythonig (Cymreig).
- 9G. Y Llychlynwyr yn ymosod, yn ymsefydlu ac yn concro Ynys Manaw a daeth i gael ei rheoli gan frenhinoedd Llychlynnaidd Dulyn.
990. Y Llychlynwyr Iarll Orkney yn concro Ynys Manaw gan ei rheoli o Ynysoedd Erch (Orkney).
1079. Godred Crovan o Ddulyn yn ailgoncro Ynys Manaw ac Ynysoedd Heledd, gan sefydlu llinach hir yn Frenhiniaeth yr Ynysoedd. Mewn enw o dan benarglwyddiaeth Norwy. Cofir am Godred yn llên gwerin Mynaweg fel brenin Orry.
- 1156–58. Somerled yn sefydlu Brenhiniaeth ar wahân i'r Ynysoedd yn seiliedig ar ynys Islay oedd yn cynnwys Ynysoedd Heledd ond nid Ynys Manaw.
1265. Alexander III o'r Alban yn concro Ynys Manaw ar ôl marwolaeth Magnus III.
1275. Godred VI, mab Magnus III, yn ailgipio Ynys Manaw o'r Albanwyr ond am gyfnod byr yn unig y mae'n frenin.
- 1290–1313. Yn ystod ei goncwest o'r Alban, gorchfygodd Edward I o Loegr Ynys Manaw hefyd.
- 1313–46. Ailgipio Ynys Manaw gan frenin yr Alban Robert the Bruce, ond yn y blynyddoedd wedyn, newid ochr fu hanes yr ynys.
1405. John Stanley, sydd wedi cael Ynys Manaw gan frenin Lloegr, yn sefydlu llinach hirbarhaol a reolai'r ynys drwy lywodraethwyr. Byddai'r Stanleys hefyd i ddod yn leirll Derby ar ôl 1486.
- 1651–60. Yn 1651, lladdwyd 7fed Iarll Derby wrth ymladd ar yr ochr frenhinol, torrwyd ar wrthsafiad ei wraig, Iarlles Derby, drwy wrthryfel milisia Manaw o dan William Christian (Illiarn Dhone) gan gynorthwyo i sicrhau bod y Werinlywodraeth yn rheoli'r ynys.
1704. Deddf Sefydlogi yn pennu'r rhenti oedd yn ddyledus i arglwyddi Stanley. Mewn amser gostyngodd y gwerth ac erbyn 1916 fe'u diddymwyd.
1736. Yr arglwydd Stanley olaf yn marw.

(ymlaen i LINELL AMSER YNYS MANAW MODERN)

LLINELL AMSER CYMRU FODERN

- 1649–60. Y Werinlywodraeth yn cyflwyno Protestaniaeth efengylaidd i Gymru, a dechreuodd ffynnu er gwaethaf cael ei chosbi ar ôl adfer y frenhiniaeth.
1699. Sefydlu'r Gymdeithas Er Lledaenu Gwybodaeth Gristnogol (SPCK) gan Syr John Phillips o Sir Benfro. O dan ei nawdd, yn nechrau'r 18G sefydlodd Griffith Jones o Landdowror ysgolion a wnaeth y Cymry yn llythrennog iawn.
- 1730au. Y Diwygiad Methodistaidd yn atgyfnerthu efengyliaeth Brotestannaidd ymysg y Cymry.
1792. Iolo Morganwg yn adfer cysylltiadau derwyddol.
1811. Y Methodistiaid Calfinaidd yn gwahanu o Eglwys Loegr, anghydfurfiaeth yn dechrau tra-arglwyddiaethu ar y Gymru Gymraeg.
1831. Gwrthryfel gweithwyr Merthyr (yn deillio o'u hamodau gwaith erchyll yn dilyn y twf diwydiannol hynod gyflym yn ne-ddwyrain Cymru).
1839. Terfysgoedd Beca yn ne-orllewin Cymru yn erbyn tollau ar y ffyrdd. Terfysgoedd y Siartwyr yng nghanolfannau diwydiannol Llanidloes a'r Drenwydd.
1861. Yr Eisteddfod Genedlaethol gyntaf.
1865. Sefydlu trefedigaeth Gymraeg Patagonia.
1881. Y Ddeddf Cau ar y Sul.
1886. *Cymru Fydd*, carfan bwysu cenedlaetholwyr y Blaid Ryddfrydol.
1887. Rhyfel y Degwm yn Llangwm, Sir Ddinbych.
1904. Y diwygiad crefyddol efengylaidd/cyfriniol.
- 1907–22. Lloyd George – Cymro Cymraeg cenedlaetholgar ar un adeg – yn dod yn weinidog yn y cabinet, ac yn ddiweddarach yn Brif Weinidog rhwng 1916–22.
1920. Datgysylltu'r Eglwys Anglicanaidd yng Nghymru, gan ddod yr Eglwys yng Nghymru.
1922. Sefydlu Urdd Gobaith Cymru – mudiad ieuenctid Cymraeg.
1925. Sefydlu Plaid Genedlaethol Cymru (a ailenwyd yn ddiweddarach yn Blaid Cymru).
1935. Y darllediadau radio cyntaf yn Gymraeg.
1936. Saunders Lewis, arweinydd cenedlaetholgar, yn llosgi maes awyr Penyberth. Y protest di-drais cyntaf dros achos Cymreig.
1947. Yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yn Llanelli. Yn 1956 sefydlwyd yr ysgol uwchradd Gymraeg gyntaf yng Nglanclwyd.
1955. Cydnabod Caerdydd yn brifddinas Cymru.
- 1960–65. Cwblhau argae Tryweryn ar ran dinas Lerpwl. Gwagwyd pentref Cymraeg Capel Celyn er gwaethaf protestiadau unfrydol yng Nghymru.
1962. Sefydlu Gymdeithas yr Iaith Gymraeg. Hyrwyddai brotestio di-drais a daeth yn sbardun dylanwadol ar gyfer cydnabod y Gymraeg yn iaith swyddogol.
1964. James Griffiths, Llafur, yn dod yr Ysgrifennydd Gwladol cyntaf dros Gymru. Sefydlu Swyddfa Gymreig yng Nghaerdydd.

1966. Gwynfor Evans yn ennill sedd seneddol gyntaf Plaid Cymru. Yn araf yn y blynyddoedd dilynol, cryfhodd Plaid Cymru ei gafael ar ardaloedd Cymraeg eu haith yng ngorllewin a gogledd Cymru.
- 1963-69. Ymddangosiad grwpiau gweithredu uniongyrchol: Mudiad Amddiffyn Cymru (MAC) mudiad cyfrinachol oedd yn gyfrifol am ymgyrch fomio wasgaredig – a Byddin Rhyddid Cymru (FWA) oedd yn fwy agored. Gwanychwyd y ddau yn sgil arestio yn 1969.
1969. Seremoni arwisgo'r Tywysog Siarl yng Nghaernarfon a gynhaliwyd yng nghanol cynnydd mewn cenedlaetholdeb.
1977. Sefydlu Radio Cymru.
1979. Yr agenda cenedlaetholgar yn cael ei wrthod gan bleidleiswyr Cymru yn y refferendwm datganoli.
- 1979–94. Ymgyrch llosgi tai haf gan grŵp tywyll Meibion Glyndŵr.
1982. Sefydlu Sianel Pedwar Cymru (S4C) – sianel deledu cyfrwng-Cymraeg.
1988. Pob ysgol yng Nghymru yn dysgu Cymraeg fel pwnc gorfodol.
1997. Refferendwm datganoli yn ennill cymeradwyaeth pleidleiswyr Cymru o drwch blewyn.
1999. Sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Plaid Cymru yn ennill etholiadau yng nghadarnleoedd Llafur yng nghymoedd diwydiannol y de.

LLINELL AMSER IWERDDON FODERN

1775. Henry Grattan yn dod yn arweinydd y Blaid Wladgarol yn Senedd (Brotestannaidd) Iwerddon yn Nulyn.
- 1782–97. O dan arweinyddiaeth Grattan, Senedd Dilyn yn ennill grym datganoledig o Senedd Llundain.
1798. Gwrthryfel yr ‘United Irishmen’.
1801. Uno Iwerddon â Phrydain yn golygu diddymu Senedd Iwerddon.
1803. Gwrthryfel Robert Emmett.
- 1823–29. Cymdeithas Gatholig Daniel O’Connell yn ennill cydraddoldeb gwleidyddol i Gatholigion Gwyddelig.
- 1831–36. Rhyfel y degwm yn erbyn yr Eglwys Anglicanaidd sefydledig.
- 1845-49. Y Newyn Mawr. Lladdwyd un o bob deg o boblogaeth Iwerddon ac wedi hynny cynyddodd y Gwyddelod oedd ar wasgar ym Mhrydain ac yn America.
- 1842–44. Papur newydd *The Nation* o dan Thomas Davis yn gwyntyllu teimladau cenedlaetholgar Gwyddelig.
1848. Gwrthryfel ‘Young Ireland’.
1858. Brawdoliaeth Weriniaethol Iwerddon (IRB) wedi’i sefydlu yn America. Câi ei hymlynwyr eu galw yn Ffeniaid a dadleuant dros drais i sicrhau eu hamcanion.
- 1866-67. Ymosodiadau’r Ffeniaid o’r UDA ar Ganada Prydeinig.
1869. Datgysylltu’r Eglwys Anglicanaidd yn Iwerddon, gan ddod yn Eglwys Iwerddon.
1870. Sefydlu Cymdeithas Ymreolaeth Iwerddon (*Irish Home Rule Association*) yn Nulyn.
1874. Cyngghair Ymreolaeth (a sefydlwyd y flwyddyn flaenorol) yn ennill mwyafrif seddi Senedd Iwerddon.
1882. O dan Charles Parnell, y Gynghair Ymreolaeth yn cael ei throi yn Blaid Senedd Iwerddon (*Irish Parliamentary Party*) oedd yn llwyddiannus.
1886. Y mesur cyntaf dros Ymreolaeth Iwerddon gan yr arweinydd Rhyddfrydol Gladstone (o dan bwysau gan blaid Parnell) yn cael ei orchfygu.
1893. Sefydlu Cyngghair y Wyddeleg i ymgychu dros hawliau’r Wyddeleg.
1916. Gwrthryfel Pasg yr IRB yn methu ond yn dod yn gatalydd i boblogaeth Wyddelig sy’n awyddus i ddatganoli a chael annibyniaeth.
1918. Plaid Sinn Féin newydd ei radicaleiddio yn ennill etholiad cyffredinol ac yn mynnu annibyniaeth lwyr o Brydain.
- 1919–21. Rhyfel Annibyniaeth Iwerddon.
1921. ‘Gogledd Iwerddon’ yn torri’n rhydd ac yn sefydlu ei senedd ddatganoledig ei hun o dan sofraniaeth Prydain. Sicrheir tra-arglwyddiaeth y Protestaniaid a daw Rhaniad Iwerddon yn bwnc llosg i genedlaetholwyr Gwyddelig.
- 1922–23. Rhyfel Cartref Iwerddon yn rhoi modd i sefydlu Gwladwriaeth Rydd Iwerddon sydd â chydgysylltiad mewn enw â Phrydain. Sefydlu gwersi Gwyddeleg gorfodol.
1937. De Valera yn sefydlu cyfansoddiad newydd ac yn ailenwi’r wlad yn Éire.

1949. De Valera yn ailenwi'r wlad yn Weriniaeth Iwerddon.
1956. Y Gaeltacht (ardaloedd Gwyddeleg eu hiaith) yn cael eu hailddiffinio gan y wladwriaeth.
- 1969–98. Yr Helyntion (*Troubles*) yn dominyddu gwleidyddiaeth Gogledd Iwerddon.
1972. Sefydlu *Raidió na Gaeltachta*.
1979. Sefydlu *Údáras na Gaeltachta* i weinyddu'r Gaeltacht.
1996. Sefydlu *TG4* (wedi'i enwi yn *Teilifís na Gaeilge* yn wreiddiol).

LLINELL AMSER ALBAN FODERN

1853. Sefydlu'r Gymdeithas Genedlaethol er Amddiffyn Hawliau'r Alban. Dyma'r gymdeithas wleidyddol gyntaf sy'n benodol i'r Alban.
1872. Deddf Addysg 1872 yn anwybyddu'r Aeleg mewn ysgolion (dim ond ar ôl 1918 y caiff ei chaniatáu).
1882. Sefydlu Gaeleg yr Alban yn bwnc ym Mhrifysgol Caeredin.
1885. Sefydlu Swyddfa'r Alban yng Nghaeredin, gydag Ysgrifennydd Gwladol.
1883. Yn sgil Cyng rhair Tir yr Ucheldiroedd (*Highland Land League*), a ysbrydolwyd gan Gynghrair Tir Iwerddon, cafwyd Deddf Tyddynnod yn 1886.
1886. Sefydlu Cymdeithas Ymreolaeth yr Alban fel carfan bwysu datganoli, wedi'i hysbrydoli gan y mesur Ymreolaeth Iwerddon a gyflwynwyd gan y Blaid Ryddfrydol yn 1886.
1891. Sefydlu mudiad diwylliannol, *An Comunn Gàidhealach*, yn Oban. Ei brif waith oedd trefnu'r ŵyl ddiwylliannol deithiol bob blwyddyn, sef y Mòd.
1920. Sefydlu Cyng rhair Genedlaethol yr Albanwyr, grŵp radical o unigolion oedd am gael annibyniaeth a hyrwyddo diwylliant Gaeleg.
1934. Amryw o grwpiau cenedlaetholgar yn cyfuno yn Blaid Genedlaethol yr Alban (SNP).
1935. Yr Aeleg yn cael troedle mewn darllediadau radio'r BBC.
1945. SNP yn ennill sedd Motherwell (Glasgow) am rai wythnosau.
1964. Y rhaglen deledu Aeleg gyntaf *Se Ur Beatha*.
1967. Winnie Ewing ar ran yr SNP yn ennill sedd Hamilton (Glasgow).
1974. SNP yn torri drwodd gan ethol 11 o Aelodau Seneddol.
1975. Adrefnu llywodraeth leol yn arwain ar sefydlu'r awdurdod sir cyntaf a oedd yn cyd-daro ag ardal Aeleg ei hiaith (Comhairle nan Eilean).
1979. Refferendwm datganoli wedi'i golli yn sgil manylyn technegol, collodd SNP bopeth heblaw am 2 AS mewn etholiadau wedi hynny ac yn araf deg yr adenillodd ei chryfder.
1983. Sefydlu Sabhal Mòr Ostaig, coleg drwy gyfrwng yr Aeleg, ar Skye.
1984. *Comunn nan Gàidheal* (CNAG) yn gwahanu oddi wrth *An Comunn Gàidhealach* er mwyn ymgyrchu dros hawliau gwleidyddol i'r Aeleg.
1992. Sefydlu *Comataibh Telebhisean Gàidhlig* (CTG). Cynnydd mewn cyllid i raglenni Gaeleg.
1997. Ennill refferendwm datganoli.
1999. Sefydlu senedd yr Alban yng Nghaeredin.
1999. Sefydlu *TeleG*, sianel deledu ddigidol Gaeleg ei hiaith.
2005. Deddf Iaith yr Aeleg.

LLINELL AMSER LLYDAW FODERN

1839. *Barzaz Breiz*, sef casgliad o ganeuon gwerin gan De La Villemarqué, yn dechrau rhoi bri ar lenyddiaeth a hen bethau Llydewig.
1898. Sefydlu *Union Régionaliste Bretonne* (URB), y blaid wleidyddol ranbarthol gyntaf.
1919. Cyfnodolyn cenedlaetholgar *Breiz Atao* yn dod yn llwyfan i genedlaetholwyr Llydewig.
1931. Sefydlu *Parti National Breton* (PNB), a ddaeth yn gyflym yn ffasgaidd.
1939. Arweinwyr y PNB yn ffoi i'r Almaen ac yn dychwelyd gyda lluoedd goresgynnol yr Almaen yn 1940.
- 1940–44. Yr Almaen yn meddiannu Llydaw.
1940. Diffyg cefnogaeth ymysg y boblogaeth a pharhad cryfder llywodraeth Ffrengig Vichy yn ysgogi'r Almaenwyr i benodi cenedlaetholwyr mwy cymedrol yn lle'r arweinwyr ymneilltuol (diogelwyd yr eithafwyr ganddynt i'w defnyddio yn y dyfodol).
- 1940–44. Y darllediadau rheolaidd cyntaf yn Llydaweg.
1941. Yr orgraff ZH a fabwysiadwyd gan yr PNB yn gynhennus am flynyddoedd.
- 1942–44. Caniatáu'r Llydaweg yn y system addysg am y tro cyntaf (fel pwnc dewisol mewn ysgolion cynradd y tu allan i oriau dysgu rheolaidd).
- 1944-45. Gan iddynt gydweithredu'n agored â'r Almaenwyr, roedd y PNB, i'r rhan fwyaf o Lydawwyr, wedi tanseilio unrhyw weithgarwch gwleidyddol dros Lydaw am genhedlaeth.
1951. Cyfraith Deixonne yn caniatáu i'r Llydaweg (yn ogystal ag ieithoedd rhanbarthol eraill yn Ffrainc) fod yn bwnc dewisol mewn ysgolion cynradd y tu allan i'r oriau dysgu arferol.
1951. *Comité d'Études et de Liaison des Interêts Bretons* (CELIB) carfan bwysu ranbarthol, ond un ag agenda diwylliannol.
1957. *Mouvement pour l'Organisation de la Bretagne* (MOB), y blaid genedlaetholgar gyntaf ers y rhyfel.
1964. *Union Démocratique Bretonne* (UDB), aden chwith wedi gwahanu oddi wrth MOB.
1965. Caniatáu Llydaweg yn bwnc ar gyfer y dystysgrif gadael-ysgol (baccalauréat).
1966. Bomio cyntaf gan y mudiad terfysgol Llydewig cyntaf, *Front de Libération de la Bretagne* (FLB).
1971. Caniatáu gwersi Llydaweg rheolaidd mewn ysgolion uwchradd.
1977. Sefydlu cymdeithas *Diwan*, yr ysgol annibynnol gyntaf drwy gyfrwng y Llydaweg.
1985. Arwyddion ffyrdd dwyieithog swyddogol cyntaf.
2000. Sianel deledu *TVBreizh* yn darlledu peth Llydaweg (yn Ffrangeg yn bennaf).

LLINELL AMSER CERNYW FODERN

1810. Sefydlu papur newydd *The West Briton* yn Truro.
- 1855-58. Dugiaeth Cernyw yn dadlau y dylai sofraniaeth Cernyw barhau â'r ddugiaeth ac nid y goron.
1859. Pont Brunel dros y Tamar yn Saltash ger Plymouth yn cysylltu rheilffordd o Gernyw i weddill Prydain.
1877. Gwneud eglwys Truro yn eglwys gadeiriol. Codi eglwys gadeiriol bwrpasol yn 1880–1910.
1920. Sefydlu Cymdeithas Hen Gernyweg (*Old Cornish Society*).
1928. Sefydlu Gorsedd Cernyw yn Boscawen-un.
1951. Sefydlu *Mebyon Kernow* (MK) – carfan bwysu neilltuolwyr Cernyw. Daeth yn blaid wleidyddol yn nechrau'r 1970au.
- 1975-2006. Plaid Genedlaetholgar Cernyw yn gwahanu o MK, ond ni ffynnodd.
1999. Cyngor Sir Cernyw yn dadlau dros gael cydnabyddiaeth i'r Cernywiaid fel grŵp ethnig yng nghyfrifiad y Deyrnas Unedig, ac yn llwyddo.

LLINELL AMSER YNYS MANAW MODERN

- 1866. Caniatáu rhywfaint o ymreolaeth i Ynys Manaw.
- 1962. Sefydlu plaid genedlaethol Mec Vannin, ceisio cael annibyniaeth i Ynys Manaw.
- 1974. Ned Maddrell, y siaradwr brodorol olaf, yn marw.